Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd,
CAERDYDD
CF99 1NA

04 Ebrill 2019

Annwyl

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran diwygio offerynnau statudol (OSau) lle y mae materion technegol wedi'u nodi. Pan fydd hyn yn digwydd mae opsiynau ar agor i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys

- gwneud OS diwygio i fynd i'r afael â'r mater hwn yn benodol,
- gwneud y diwygiadau angenrheidiol y tro nesaf y caiff y prif OS ei ddiwygio, neu
- ddefnyddio OS arall mewn maes cysylltiedig fel y cyfrwng ar gyfer gwneud y diwygiadau.

Mae nifer o ffactorau'n dylanwadu ar y dewis rhwng yr opsiynau hyn, gan gynnwys arwyddocâd cyfreithiol y mater, faint o frys sydd o safbwynt mynd i'r afael â'r mater, ei flaenoriaeth mewn perthynas â deddfwriaeth arall sydd wedi'i chynllunio, ac argaeledd cyfrwng deddfwriaethol priodol ar gyfer gwneud y diwygiadau. Er enghraifft, mae rhai OSau yn cael eu diweddaru yn rheolaidd, gan gynnig cyfle parod ar gyfer diwygiadau nad ydynt yn rhai brys, tra na fydd eraill yn gorfod cael eu hadolygu am rai blynyddoedd. Os yw hyn yn wir byddai angen dull gweithredu arall er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn cael ei gywiro.

Tynnodd eich llythyr sylw at ddau OS yr oeddech wedi'u hystyried yn ddiweddar lle'r oedd ymatebion y Llywodraeth i'ch adroddiadau yn wahanol. Mae'r rhain yn darlunio'r gwahanol sefyllfaoedd a dewisiadau yn dda iawn. Rydych yn nodi y byddai OS sy'n diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 yn cael ei wneud **"cyn gynted â phosibl."** Yn yr achos hwn, oni bai yr elid i'r afael â'r mater byddai'r OS yn *ultra vires* pan ddeuai i rym. Bu rhaid gwneud OS diwygio i gywiro'r sefyllfa hon ar unwaith. Yn achos Rheoliadau Clefydau Egsotig mewn Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, Er hynny, nododd ein hymateb i un pwynt adrodd gan y Pwyllgor y caiff diwygiad ei wneud **"pan fydd y cyfle nesaf yn codi."** Y mater a oedd o dan sylw yn yr achos hwnnw oedd bod yr OS yn dirymu darpariaeth a oedd eisoes wedi cael ei dirymu. Er bod angen mynd i'r afael â'r mater

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hwn o safbwynt cywirdeb, nid yw yn yr un cae â'r mater yn yr OS ar Bysgota Môr. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y diwygiadau y mae eu hangen ac fe fydd yn nodi'r cyfrwng deddfwriaethol priodol nesaf a fydd ar gael ar gyfer eu hymgorffori.

Gobeithio bod hyn yn helpu i egluro'r ffactorau sy'n cael eu cymryd i ystyriaeth yn y materion hyn.

Yn gywir

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd